**Anfonwn ein cofion at holl aelodau a chyfeillion Bethlehem gyda chyfarchion arbennig i'r canlynol:**

- Gladys Lloyd, mam Catrin Llwyd, sydd wedi bod yn cael triniaeth yn Ysbyty'r Brifysgol.
- Dewi Bonner, tad Ann Passmore ac Elinor Trigg, y cawsom ei gwmni yn ystod ein hymweliad Nadolig â Thŷ Eirin, Tonyrefail.

## Y Cwrdd Merched

Daeth tymor y Nadolig i ben gyda sesiwn o Frethyn Cartre. Rhoddodd Marian Evans wers i ni ar sut i drefnu blodau a gwnaeth osodiad hyfryd o ddail a blodau ffarwel haf. Cyflwynodd y gosodiad i'n cadeirydd, Eirlys. Wedyn, i orffen ar nodyn tymhorol, bu nifer o'r aelodau yn darllen darnau'n gysylltiedig a'r Nadolig.

I groesawu'r flwyddyn newydd, cawsom gwis. Bu Cerith Davies a Ken Evans yn ceisio'u gorau glas i ddatgelu'n hanwybodaeth o'r Eisteddfod Genedlaethol, gwyddoniaeth, barddoniaeth, llenyddiaeth a'r brifddinas. Cafwyd prynhawn hynod o ddifyr yn eu cwmni.

Ym mis Chwefror braf oedd cael cyfle i groesawu'n bugail newydd i'n Cymdeithas. Siaradodd y Parchedig Ddr Alun Evans am hanes yr Eisteddfod a chawsom wledd o wybodaeth ganddo. Yna, cyfle i gymdeithasu uwchben paned.

I gloi tymor y Gwanwyn, daeth Havard Gregory atom i son am ei ieuenctid yng Ngwaelod-y-Garth. Roedd yn agoriad llygad i rai ohonom i weld y pentref trwy lygaid un a fu'n byw yno Prynhawn arall o bleser pur.

Yn ystod y tymor, aeth grwp o'r aelodau i weld perfformiad o Godspell yng Nghanolfan y Mileniwm.

Ym mis Ebrill, byddwn yn edrych ymlaen at glywed Eirian Samuel yn son am ei gwaith gyda Chymorth Cristnogol. Yna daw'r trip i Lanfaches a Chasgwent ym mis Mai.

**Cath Edwards**

**Cydymdeimlwn â'r canlynol gollodd anwyliaid yn ddiweddar:**

- Delyth Pollard, Heol Isaf, Radur, wedi colli ei thad
- Gerallt ac Ann Lewis, Heol Pencisely, Llandaf - Gerallt wedi colli ei dad ac Ann, hithau, wedi colli perthynas yn ddiweddar
- Ken Evans, Maes y Sarn, Pentyrch, wedi colli ei frawd.

**Neges i'r rhai sy'n cael eu derbyn:**
Bydd y cwrdd derbyn nesa ar Ebrill 13 am 5.30 a'r un ola am 5.30 ar Ebrill 27


***Cyfeiriad ein gweinidog:***

*Y Parchedig Ddr R. Alun Evans,*
Y Wenallt, 8 Heol Elmgrove,
Yr Eglwys Newydd, Caerdydd
CF14 2BW
Ffôn: 02920 520 854
e.bost: ralunevans@beeb.net
neu ralun.evans@virgin.net



*Crynodeb o newyddion am aelodau a gweithgareddau capel Bethlehem Gwaelod-y-Garth.* Gwanwyn 2008


# Newyddion Bethlehem

***Y gweinidog yn eich gwahodd i fynychu:***

# Cymundeb Mawr Mai

**Diolch am y croeso! Ddwede chi ddim, ond rwy'n berson swil wrth natur.** Dyn nerfus iawn esgynodd i'r pulpud ar y bore Sul hwnnw yn Ionawr pan oeddwn i'n dechrau ar fy ngweinidogaeth ym Methlehem. Yr oedd y got fawr yn cuddio mwy na botwm coch mewn gwirionedd! Ond gan mor gynnes eich croeso a'ch cefnogaeth buan y ciliodd pob pryder. Diolch am ei gwneud hi'n hawdd teimlo'n gartrefol.

Bu'n fedydd tân gan bod galw'n fuan i drefnu gwasanaeth bedydd a derbyn aelodau newydd; paratoi anerchiad wrth ddod yn Gadeirydd Cwrdd Chwarter Cyfundeb Dwyrain Morgannwg a pharatoi myfyrdod i Gyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. A dyma ni bellach yn paratoi nifer dda o bobl ifanc i'w derbyn yn aelodau yng nghymundeb Mai. Byddai'n arferiad yn Seion, Llandysul, fy eglwys gyntaf, i alw'r cymun ym Mai yn Gymundeb Mawr Mai. Y syniad wrth wraidd hynny bod hwn yn achlysur i unrhyw un a giliodd yn ystod y flwyddyn i ddychwelyd i'r gorlan, bawb gyda'i gilydd a neb yn teimlo'n lletchwith. Pam na ellir mabwysiadau'r un arferiad ym Methlehem?

Bu'r genhadaeth uniongyrchol i ymweld â'r bobl ifanc ar eu haelwydydd yn rheswm ardderchog i barhau fy ymweliadau gan gyfarwyddo â'r ardal lle'r ydych yn byw. Bydd yr ymweliadau hynny'n cynyddu tros gyfnod y Pasg.

Un o'r uchafbwyntiau hyd yma oedd y cwmni ddaeth i Gwrdd Gweddi yn gynnar ar fore Gwyl Dewi. Un arall oedd y gynulleidfa a dalodd deyrnged i TJ, diolch i ddethol deallus Eirlys, ar Fawrth 9fed.

Ganol Ebrill cynhelir y Cwrdd Sefydlu. Bydd yn dda iawn cael croesawu pawb i'r oedfa honno. Ymhlith y rhai sy'n cymryd rhan bydd brodyr y diweddar Rhys Tudur – Geraint yn Ysgrifennydd yr enwad ac Alun yn gymydog yng Nghaerdydd; Huw Ethall, cofiannydd R. G. Berry ac un sy'n "myned yn iau wrth fyned yn hyn"; Eifion Powell, cyn Brifathro Coleg yr Annibynwyr ac un y bum yn rhannu ystafell gydag ef yng Ngholeg Bala-Bangor. Ac yna ddau arall o "fois Bala-Bang" – Elwyn Jones, cyn gydweithiwr yn y BBC a chefnogwr tîm peldroed Wrecsam, a Dewi Myrddin Hughes, Llywydd Undeb yr Annibynwyr, a chefnogwr pybyr tîm peldroed Abertawe. Yn y fath gwmni does ryfedd bod angen y Presbyteriad rhadlon, Cynwil Williams, i fendithio'r cyfan!

***R Alun Evans***

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

***Tri dyddiad pwysig i'ch dyddiadur:***

| *Cwrdd Sefydlu* | *Cwrdd Derbyn Aelodau* | *Cwrdd Mawr Blynyddol* |
|---|---|---|
| *Y Parchedig Ddr R. Alun Evans, yn weinidog Bethlehem Gwaelod y Garth<br>Dydd Sadwrn<br>Ebrill 19<br>am 2.00 o'r gloch* | *(gweler uchod)<br>yn ystod<br>Cymundeb Mawr Mai<br>Bore Sul, Mai 11<br>am<br>10.30* | *Y Parchedig Noel Davies, (bore'n unig)<br>Dydd Sul<br>Mai 18<br>am<br>10.30* |
~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~